## ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Rhaglen waith Cymraeg 2050 2021-2026

Er nad oes gan y gwaith hwn unrhyw gysylltiad uniongyrchol â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, rydym wedi sicrhau bod yr egwyddorion y mae'n eu nodi wedi cael eu dilyn wrth ddatblygu a gweithredu ein cynnig polisi.

2. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r sefyllfa o ran y Gymraeg. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (yn effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

**Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Bydd y Rheoliadau yn cael effaith fach iawn ar gynaliadwyedd y Gymraeg. Mae'r Gymraeg wedi cael ei thrin yn gyfartal i'r Saesneg, gyda'r Rheoliadau eu hunain, y Memorandwm Esboniadol a phob asesiad effaith cysylltiedig ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth ddatblygu'r polisi hwn, rydym wedi parhau i sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu. Byddwn hefyd yn annog busnesau i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y maent yn ei darparu i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Pan ymgynghorwyd ar y cynnig hwn am y tro cyntaf yn 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus a digwyddiadau i randdeiliaid i sicrhau mai ein gweithredoedd arfaethedig oedd y rhai cywir. Roedd hyn yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau rhanbarthol a gynhaliwyd yn rhithwir ac wyneb yn wyneb ledled y wlad, gyda rhai ohonynt ar gael yn Gymraeg. Drwy gydol y sesiynau hyn cafodd unigolion y cyfle i ddylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad i sicrhau bod y newid polisi hwn yn bodloni gofynion eu cymunedau.

**Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith benodol ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg. Bydd busnesau'n cael eu hannog i ddarparu gwybodaeth/arwyddion yn Gymraeg a Saesneg.

**Sut y byddwch yn gwybod a fydd eich polisi'n llwyddiant?**

Yn dilyn cyflwyno’r Rheoliadau, byddwn yn rhoi rhaglen werthuso gadarn ar waith. Bydd y gwaith gwerthuso hwn yn bwrw ati i asesu holl effeithiau’r Rheoliadau, gan gynnwys unrhyw effeithiau anfwriadol ar wahanol grwpiau.